

# Cyllideb Cymru 2021-2022



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government



## Sut mae Llywodraeth Cymru yn gwario eich arian ?

- Mae gan Gymru ei lywodraeth ei hun. Llywodraeth Cymru sy'n penderfynu sut i wario eich arian bob blwyddyn i geisio gwella bywydau pobl.
- Mae Rebecca Evans, y Gweinidog Cyllid, yn nodi'r penderfyniadau hyn yn y Gyllideb.
- Mae'r arian sy'n cael ei wario yng Nghymru yn cael ei godi trwy gasglu trethi oddi wrth pobl a busnesau.
- Codir rhai o'r trethi hyn gan Lywodraeth Cymru. Mae 17c o bob £1 rydyn ni'n eu gwario yng Nghymru yn dod o drethi Cymru.
- Codir y trethi eraill gan Lywodraeth y DU. Mae'r trethi hyn yn berthnasol ledled y DU, gan gynnwys Cymru.
- Mae gan Lywodraeth Cymru fwy na £20 biliwn i'w wario rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022.
- Defnyddir yr arian hwn i gefnogi gwasanaethau cyhoeddus pwysig yng Nghymru.


## O ble mae Cymru yn cael ei harian?

### Cyllid Llywodraeth Cymru 2021-2022

**£16.7 biliwn\***

**83%**

Cyllid gan  
Lywodraeth y DU



**£2.1 biliwn**

**10%**

Cyfraddau Treth  
Incwm Cymru



**£1.1 biliwn**

**6%**

Ardrethi Annomestig




**£264 miliwn**

**1%**

Trethi wedi'u  
datganoli'n llwyr


Treth Trafodiadau Tir: **£231m**  
Treth Gwarediadau Tirlenwi: **£33m**



Benthycia cyfalaf gan Lywodraeth Cymru: **£150m** / Ad-daliadau arfaethedig benthyciadau cyfalaf: **£7m**  
Defnydd arfaethedig o gronfeydd refeniw Cymru: **£125m**

\* Heb gynnwys gwariant a reolir yn flynyddol (AME) na DEL anghyllidol.

# Sut ydyn ni'n bwriadu gwario'r arian ar gyfer Cymru?



## Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol - £9.06 biliwn

**Talu am yr holl feddygon, nyrsys a deintyddion sy'n helpu i'n cadw'n iach yn ogystal â gwella ein hysbytai, meddyginiaethau a ffyrdd eraill y gallwn gadw'n iach.**

Mae'r feirws wedi cael effaith fawr ar bob un ohonom. Rydym wedi bod angen i'r rhai sy'n gweithio yn ein hysbytai drin pobl, a'n helpu i gadw'n iach a derbyn gofal. Rydym am sicrhau ein bod yn parhau i ofalu am y bobl sy'n gwneud hyn i ni drwy wario arian i'w diogelu.

Mae ychydig mwy na hanner y Gyllideb yn cael ei wario ar iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. Mae'r rhan fwyaf o'r arian hwn, tua £8.4 biliwn, yn cael ei roi fel cymorth i'n Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG). Bydd yr arian hwn yn diogelu ein GIG, fel y gall barhau i helpu pawb yng Nghymru os byddant yn mynd yn sâl.

## Tai a Llywodraeth Leol - £6 biliwn

### **Arian i awdurdodau lleol dalu am ysgolion, y rhai sy'n gofalu am bobl eraill, hen ac ifanc, ac i wneud llawer o bethau eraill sy'n wirioneddol bwysig i'r ardal rydyn ni'n byw ynddi.**

Rydym yn darparu'r arian mwyaf a allwn i helpu awdurdodau lleol i wneud pethau sy'n wirioneddol bwysig lle'r ydych yn byw.

Bydd awdurdodau lleol yn cael £176m ychwanegol y flwyddyn nesaf i sicrhau bod gennym ysgolion ac athrawon, pobl i ofalu am eraill pan fydd angen help arnynt, ac i dalu am y pethau rydych yn eu defnyddio yn eich ardaloedd lleol, fel llyfrgelloedd, canolfannau hamdden a pharciau.

*\* Mae'r ffigurau hyn yn cynnwys £1.1 biliwn ar gyfer ardrethi annomestig. Treth rydyn ni'n ei chael gan fusnesau am yr eiddo sydd ganddyn nhw yw hon.*

### **Gwneud yn siŵr bod gan bobl gartrefi addas i fyw ynddyn nhw**

Rydym ni'n gwario £200 miliwn yn 2021-22 i adeiladu mwy o gartrefi yng Nghymru y gall mwy o bobl fforddio eu prynu a byw ynddynt.

Credwn hefyd ei bod yn bwysig iawn nad yw'r cartrefi rydych chi'n byw ynddynt yn rhy oer, ac nad yw'n costio gormod o arian i sicrhau bod eich tŷ yn cadw yn gynnes. Rydyn ni'n gwario mwy o arian i helpu i wneud cartrefi'n gynhesach ac yn fwy effeithlon o ran ynni. Mae pobl yn llai tebygol o fynd yn sâl os ydynt yn byw mewn cartrefi cynnes. Os yw'r tai wedi'u hadeiladu'n dda, mae hefyd yn helpu ein hamgylchedd gan nad yw'n cymryd cymaint o danwydd i'w gwresogi.

## Addysg - £1.78 biliwn

### **Sicrhau bod pawb yn gallu dysgu'r pethau sydd eu hangen arnynt i'w helpu mewn bywyd ac i ddod o hyd i swydd, ni waeth o ble y maent yn dod.**

Gwyddom, oherwydd y feirws, nad yw plant a phobl ifanc wedi gallu dysgu yn y ffordd y maent wedi arfer, boed hynny mewn ysgolion, colegau neu brifysgolion yng Nghymru.

Rydym yn gwario £12 miliwn ychwanegol i sicrhau bod plant yn gallu cael y cymorth ychwanegol sydd ei angen arnynt yn yr ysgol i 'ddal i fyny' ar eu haddysg - mae hyn ar ben £17 miliwn rydym eisoes wedi'i wario eleni. Rydyn ni hefyd yn gwario £8.3 miliwn yn ychwanegol i helpu ysgolion i baratoi ar gyfer Cwricwlwm newydd yng Nghymru, sef y wybodaeth y mae athrawon yn ei defnyddio i ddysgu'r sgiliau sydd eu hangen arnoch ar gyfer bywyd a gwaith.

Byddwn hefyd yn gwario £40 miliwn ychwanegol i sicrhau mai adeiladau'r ysgol a'r coleg yr ewch iddynt yw'r lleoedd gorau posibl i helpu pobl i ddysgu. Oherwydd newid yn yr hinsawdd, mae'n bwysig iawn ein bod yn sicrhau nad yw'r adeiladau hyn yn niweidio'r amgylchedd, felly rydym am eu hadeiladu yn y ffordd orau bosibl.

### **Helpu plant i fod yn iachach**

Rydym ni'n gwario £4.9 miliwn er mwyn i blant 7-11 oed fod yn fwy egnïol, bwyta'n iach ac i ddefnyddio adeiladau ysgol yn ystod y gwyliau i'w helpu i wneud ffrindiau newydd.

## Yr Economi a Thrafnidiaeth - £1.56 biliwn

### Sut rydym ni'n helpu pobl i gael swyddi

Rydym ni'n gwneud popeth o'n gallu i helpu pobl sydd wedi colli eu gwaith i ddod o hyd i swydd newydd, ac sydd am ddysgu pethau newydd i weithio mewn gwahanol swyddi.

Mae rhai o'r pethau rydym yn eu gwneud i helpu yn cynnwys rhoi £6 miliwn o arian ychwanegol i Cymunedau am Waith a Mwy. Mae hyn yn helpu pobl i ddod o hyd i swydd, yn enwedig y rhai nad ydynt wedi cael swydd ers amser maith. Rydym ni hefyd yn gwario £5.4 miliwn i helpu'r bobl hynny sy'n ennill llai o arian i ennill mwy yn y dyfodol. Bydd hyn yn eu helpu i ddysgu pethau newydd mewn ffordd sy'n cyd-fynd â'u bywyd, er enghraifft os oes ganddynt blant i ofalu amdanynt.

### Y ffordd rydym ni'n teithio

Rydym ni'n gwario llawer o arian i helpu i ddiogelu'r ffordd yr ydym yn teithio, yn enwedig ar fysiau a threnau. Mae angen y rhain ar lawer ohonom i fynd i wahanol leoedd, fel ysgol a gwaith, neu i ymweld â lleoedd newydd.

Rydym ni hefyd yn gwario £20 miliwn ychwanegol eleni i gynyddu 'teithio llesol' – mae hyn yn golygu gwneud teithiau drwy fod yn gorfforol egnïol, fel cerdded neu feicio. Gall gwneud mwy o hyn ein helpu i fod yn fwy iach a hapus. Gall hefyd helpu i wneud yr aer rydym yn ei anadlu'n lanach os oes llai o geir ar y ffordd.

## Yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig - £719 miliwn

Rydym ni'n gwybod pa mor bryderus yw pawb am ddyfodol ein planed. Y llynedd, gwnaethom ddatgan 'Argyfwng Hinsawdd'. Rydym ni'n gwybod bod gofalu am ein hamgylchedd yn bwysig iawn gan ein bod am i'r aer rydym ni'n ei anadlu a'r dŵr rydym ni'n ei yfed fod yn lân a'r bwyd rydym ni'n ei fwyta i fod yn ddiogel. Rydym hefyd am sicrhau ein bod yn gofalu am y planhigion a'r anifeiliaid sy'n rhan bwysig o'n hamgylchedd.

Y llynedd gwariwyd £140 miliwn gennym ar draws nifer o feysydd i helpu i wella natur ac i leihau faint o lygredd a grëwn. Eleni rydym yn gwneud hyd yn oed mwy, gan gynnwys ar brosiectau i helpu i ddiogelu natur, drwy blannu mwy o goed ac adfer lleoedd sy'n bwysig iawn i'n hamgylchedd gan eu bod yn gartref i lawer o anifeiliaid a phryfed rydym ni am eu diogelu.

### Ailgylchu mwy o'n gwastraff

Cymru yw'r wlad orau yn y DU a'r drydedd orau yn y byd o ran ailgylchu ein sbwriel cartref. Mae'n bwysig hefyd ein bod yn ceisio aildefnyddio eitemau sydd wedi torri, er mwyn lleihau ymhellach faint o sbwriel rydym ni i gyd yn ei greu. Rydym ni'n awyddus i wneud hyd yn oed mwy a byddwn yn gwario £27 miliwn ychwanegol i'n helpu i wneud hyn.

## Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg - £320 miliwn

Gwyddom fod eleni wedi bod yn anodd iawn i lawer ohonom, gyda llawer o newidiadau i'r ffordd rydym yn dysgu, gweithio a byw ein bywydau.

Gallai hyn fod wedi achosi teimladau a phryderon negyddol felly rydym ni'n gwario mwy o arian i helpu pobl i ddelio â'r teimladau hyn. Rydym ni'n gwario £4 miliwn ychwanegol eleni i ddarparu cwnsela a chymorth emosiynol i blant ysgol, athrawon a staff eraill yr ysgol, i helpu i ddod o hyd i ffyrdd mwy cadarnhaol o ddelio ag emosiynau anodd.

Rydym ni hefyd yn gwario £12.7 miliwn eleni i helpu gyda dysgu siarad Cymraeg, neu i wella o ran siarad a deall Cymraeg mewn ysgolion ledled Cymru. Bydd hyn yn ein helpu i gyrraedd ein targed i gael 1 miliwn o bobl yng Nghymru sy'n siarad Cymraeg bob dydd erbyn 2050.

## Gwasanaethau Canolog a Gweinyddiaeth – £414 miliwn

Mae'r arian hwn yn cael ei ddefnyddio gan Lywodraeth Cymru i dalu am gostau staff,

gwasanaethau TG (gan gynnwys cyfrifiaduron) ac adeiladau Llywodraeth Cymru. Mae'r arian hefyd yn helpu i sicrhau bod pob un yn cael ei drin yn deg.

Rydyn ni'n gwario £33 miliwn i wneud yn siŵr bod pob un yn cael ei drin yn deg. Nid oes gwahaniaeth pwy ydych chi na phwy rydych chi'n ei garu, os ydych chi'n gyfoethog neu'n dlawd, yn ferch neu'n fachgen, beth yw lliw eich croen, beth yw eich crefydd, os ydych chi'n anabl, pa un a ydych chi'n siarad Cymraeg neu Saesneg neu iaith arall, na lle rydych chi'n byw.

Gall pob punt a wariwn gael effaith ar eich bywyd.

### COVID-19 - £77 miliwn

Ar ben yr arian a wariwn yn ein cyllideb, mae arian ychwanegol yn cael ei wario ar draws y Deyrnas Unedig i'n helpu i ymladd y feirws. Rydwn ni'n defnyddio'r arian hwn i gadw Cymru'n ddiogel.

Mae COVID-19 wedi troi pob agwedd ar ein bywydau wyneb i waered. Rydwn ni am helpu'r bobl sydd angen yr amddiffyniad mwyaf rhag y salwch hwn. Gallai hyn fod oherwydd eu hiechyd, oherwydd eu bod wedi colli eu busnes neu eu swydd, neu oherwydd bod angen mathau eraill o gymorth arnynt.

I wneud hyn, rydwn ni'n gwario:

- £23.3 miliwn ychwanegol ar brydau ysgol am ddim, fel y gall pob plentyn sydd ei angen gael pryd iach yn ystod gwyliau'r ysgol, os ydynt yn adeilad yr ysgol ai peidio.
- £4 miliwn ychwanegol i gefnogi pobl sy'n ddigartref, ac i helpu i atal pobl rhag dod yn ddigartref.
- £12 miliwn arall i helpu'r rhai mewn ysgolion neu golegau i ddal i fyny ar ôl colli ysgol drwy logi pobl newydd, fel athrawon, i'w cefnogi.
- £10 miliwn ychwanegol i helpu'r bobl sy'n ceisio gweithio allan pwy sydd â'r feirws, sy'n bwysig iawn i'n helpu i ymladd y feirws a'i atal rhag lledaenu.

Bydd angen i ni barhau i weithio allan sut i wario mwy o arian lle mae ei angen fwyaf, yn enwedig ar ôl y gaef hwn pan fyddwn yn gwybod sut mae'r feirws wedi datblygu. Mae hyn yn golygu y gallwn sicrhau y gallwn wario'r arian yn gyflym a'i gyrraedd i'r man lle mae ei angen i amddiffyn pobl.

### I gael gwybod rhagor am sut rydwn ni'n gwario'r arian hwn ewch i'n gwefan

<https://llyw.cymru/cyllidebau-llywodraeth-cymru> lle mae pob maes wedi'i drefnu yn ôl pwnc.

Rydwn ni am wybod eich barn chi am sut mae'r arian rydwn ni'n ei gael yng Nghymru yn cael ei wario. Ysgrifennwch at y Gweinidog sy'n gyfrifol am rywbeth y mae gennych chi ddiddordeb ynddo i ddweud sut rydych chi'n meddwl y dylid gwario'r arian.

Dyma ddolen i'r dudalen sy'n dweud pa gyfrifoldebau sydd gan bob Gweinidog. Cliciwch ar eu henwau i gael gwybod mwy:

<https://llyw.cymru/aelodau-cabinet-gweinidogion>

Dyma ddolen i gyfeiriadau e-bost y Gweinidogion:

<https://llyw.cymru/cysylltu-a-gweinidogion-llywodraeth-cymru>